# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL TGAU

**TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Unigol)**

**Pryd gaiff ei gyflwyno:** Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd
**Teitl y cymhwyster:** TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Unigol)
**Corff Dyfarnu:** CBAC

**Cyflwyniad i'r pwnc**
Lluniwyd y cwrs hwn fel cyflwyniad i weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n paratoi myfyrwyr gyda'r wybodaeth a'r sgiliau craidd a allai eu galluogi i symud ymlaen i astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds a CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn dilyn hynny, gallant symud ymlaen at yrfaoedd yn y sector iechyd neu ofal cymdeithasol os byddant yn llwyddiannus.

**Cynnwys y Cwrs**
Mae'r cwrs yn cynnwys dwy uned orfodol. Ym mlwyddyn deg bydd myfyrwyr yn astudio uned 1 - Twf, datblygiad a llesiant dynol ac ym mlwyddyn un ar ddeg, bydd myfyrwyr yn astudio uned 2 - Hybu a chynnal iechyd a llesiant.

**Asesu**
I gyflawni'r cymhwyster TGAU, rhaid i fyfyrwyr gwblhau'r arholiad uned 1 ym mlwyddyn deg ac asesiad di-arholiad uned 2 ym mlwyddyn un ar ddeg. Bydd myfyrwyr yn sefyll arholiad 90 munud i asesu eu gwybodaeth am uned 1 ar ddiwedd blwyddyn deg ym mis Mai 2025, gyda chanlyniad yr arholiad yn ffurfio 40% o'u gradd gyffredinol ar ddiwedd blwyddyn 11. Cynhelir yr asesiad di-arholiad ym mis Mai 2026 ac yn ffurfio'r 60% sy'n weddill o'r radd derfynol.

**Cyfleoedd Gyrfa**
Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, nid yw'n debygol y bydd myfyrwyr yn symud i waith yn eu maes dewisol yn syth. Fodd bynnag, gallant ddewis astudio ymhellach drwy wneud cais am gymhwyster Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu gyrsiau Safon Uwch fel Seicoleg neu Gymdeithaseg.

**Costau**
Crys polo oddeutu £14 (dewisol)